| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **15 Ebrill 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill /Paul McGrady** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Richard Weigh, Prif Gyfrifydd** |
| **Teitl:** | **Proses Cyllideb 2015/16** |

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn amlinellu'r broses arfaethedig er mwyn darparu cyllideb refeniw ar gyfer 2015/16.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Darparu diweddariad ynglŷn â'r broses arfaethedig, gan gynnwys manylion am yr amserlen, am gyfarfodydd, am ddewisiadau ar gyfer ymgynghori ac am y camau sydd i'w dilyn er mwyn cael cymeradwyaeth.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Rhoi ystyriaeth i'r broses a gwneud sylwadau fel y bo'n briodol.

**4. Manylion am yr Adroddiad**

Dull gweithredu'r cyngor wrth bennu cyllidebau refeniw fu lleihau costau'n gynyddrannol yn seiliedig ar gynigion i ganfod arbedion oddi ar gyllidebau gwasanaethau a'r gyllideb gorfforaethol. Byddai'r cynigion yn cael eu cyflwyno i aelodau etholedig, ac ar y cyfan, byddent yn cael eu derbyn. Mae'r broses honno wedi gweithio'n dda ac wedi darparu cyllidebau llwyddiannus – ond mae'r broses honno wedi rhedeg ei chwrs. Setliad cyllideb 2014/15 oedd y caletaf y mae'r cyngor wedi ei wynebu erioed ac mae'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol yn parhau i fod yn llwm.

Mae rhagdybiaethau yn y Cynllun Corfforaethol ynglŷn â setliadau, chwyddiant, treth y cyngor a buddsoddiad i'r dyfodol yn golygu efallai y bydd angen arbedion o oddeutu £12m dros y ddwy flynedd nesaf. Mae maint y targed arbedion, ar ben y toriadau sydd eisoes wedi eu gwneud yn golygu fod angen dull gweithredu newydd.

Mae Atodiad 1 yn dangos sut y gallai'r broses honno weithio a chaiff rhagor o fanylder ei gyflwyno isod.

Bydd targedau arbedion cyllidebol yn cael eu rhannu'n dri edefyn gogyfer â 2015/16 a 2016/17. Mae'r tabl isod yn dangos y tri edefyn ynghyd â brasamcan o'u gwerth:

| | 2015/16 | 2016/17 |
|---|---|---|
| **Edefyn Cyllideb** | **£'000** | **£'000** |
| 1. Gwasanaethau'n dynodi arbedion sy'n gyfwerth â phob cynnydd yng nghostau cyflogau, pensiynau ac yswiriant gwladol. | 1,382 | 2,111 |
| 2. Gostyngiadau yn y Gyllideb Gorfforaethol | 500 | 500 |
| 3. Adolygu Gwasanaethau – Rhyddid a Hyblygrwydd (Eitem Mantoli) | 4,118 | 3,389 |
| **Cyfanswm** | **6,000** | **6,000** |

Gellir amcangyfrif gwerth y ddau edefyn cyntaf gyda rhyw gymaint o sicrwydd (ond nid yn llwyr). Y prif ragdybiaethau sydd wrth wraidd Edefyn 1 yw codiad cyflog tebygol o 1% yn y naill flwyddyn a'r llall, cynnydd hysbys yng nghostau pensiynau i'r cyflogwr a chynnydd arfaethedig yng nghostau Yswiriant Gwladol yn 2016/17. Mae effaith y costau hyn sy'n ymwneud â chyflogau wedi ei chynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Yr hyn sy'n cael ei gynnig yw y bydd y gwasanaethau'n gorfod amsugno'r costau trwy ganfod arbedion sy'n gyfwerth â hwynt. Bydd yr Adran Ariannol yn gweithio ar y manylion gyda Phenaethiaid Gwasanaeth yn ystod y tri mis nesaf gyda'r bwriad o fod ag ystod o gynigion i'w hystyried fis Gorffennaf (mewn pryd i'w trafod gydag aelodau etholedig yng ngweithdai cyllidebol mis Gorffennaf).

Bydd y rhan hon o'r broses yn debyg i flynyddoedd blaenorol, ac yn debygol o ddynodi arbedion o ganlyniad i ailstrwythuro gwasanaethau, rheoli swyddi gweigion a gwneud arbedion effeithlonrwydd eraill. Bydd mesurau Moderneiddio o gymorth i'r gwasanaethau wrth gyflawni'r arbedion hyn, ond ni fyddant yn ychwanegol atynt.

Mae'r gwerthoedd sydd ynghlwm wrth Edefyn 2 yn amcangyfrif rhesymol o'r hyn y gellir ei gyflawni o gyllidebau corfforaethol.

Mae'n anos amcangyfrif gwerth y trydydd edefyn (gwasanaethau sy'n cael eu hadolygu o ran Rhyddid a Hyblygrwydd), ond ar hyn o bryd caiff ei ddangos fel eitem mantoli i gyrraedd targed arbedion o £12m dros y ddwy flynedd nesaf. Dyma'r newid mwyaf sylweddol i broses y gyllideb a bydd yn canolbwyntio ar yr hyn y mae gwasanaeth yn ei wneud, faint mae'n ei gostio ac yn ceisio dadansoddi a yw tasgau yn rhwymedigaethau statudol, yn flaenoriaethau corfforaethol, ac yn y blaen. Mae dau wasanaeth wedi cynnal ymarferion peilot sydd wedi bod yn ddefnyddiol iawn er mwyn deall sut y bydd y broses newydd hon yn gweithio.

Dyma grynodeb o'r broses o ran Rhyddid a Hyblygrwydd:

- Defnyddir templed safonol ar gyfer pob gwasanaeth. Mae'n amlinellu cyllideb y gwasanaeth dros y swyddogaethau a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu

- Defnyddir y templed i lywio dadl ac i amlygu meysydd ble bo angen gwybodaeth a dadansoddiad pellach o ran goblygiadau ar y gwasanaeth a’r goblygiadau ariannol a chyfreithiol.  Bydd hyn yn lleihau faint o adnoddau a ddefnyddir yn gychwynnol wrth ddadansoddi’n fanwl beth yw goblygiadau pob elfen o fewn y gwasanaeth a chaniatáu rhoi rhagor o ffocws i gynigion credadwy sy'n amlygu eu hunain yn dilyn y rownd gyntaf o gyfarfodydd.
- Bydd yr Adran Ariannol yn trefnu ac yn hwyluso o ran Rhyddid a Hyblygrwydd ac o ran cyfarfodydd ynglŷn â chyllideb gwasanaethau. Gwahoddir yr Aelod Arweiniol (Cyllid ac Asedau), Aelod Arweiniol y gwasanaeth, y Tîm Rheoli Corfforaethol, y Pennaeth Gwasanaeth a rheolwyr ariannol
- Darperir diweddariadau misol wrth i'r  Tîm Rheoli Corfforaethol, i sesiwn friffio’r Cabinet ac i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wrth i’r broses ddatblygu. Dylai Tîm Rheoli Corfforaethol adolygu'r broses yn dilyn dau neu dri chyfarfod cyntaf Rhyddid a Hyblygrwydd i sicrhau bod y broses yn gweithio'n effeithiol.

Bydd allbwn cyfarfodydd Rhyddid a Hyblygrwydd ac allbwn cyfarfodydd cyllideb gwasanaethau’n cael eu cywain a’u cyflwyno yn y lle cyntaf i’r Uwch Dîm Rheoli ac yna i ddau weithdy cyllidebol ar gyfer yr aelodau fis Gorffennaf. Ynghyd  â phob cynnig daw dadansoddiad manwl o'r arbedion, o’r goblygiadau (gwasanaeth, cyfreithiol, cydraddoldeb), ac yn sgil sesiynau blaenorol ar gyfer aelodau, bydd dadansoddiad o swyddi yr effeithir arnynt a'r effaith yn ddaearyddol (gogledd, canol, de'r sir). Bydd y rheiny sy'n bresennol yn y cyfarfodydd Rhyddid a Hyblygrwydd yn argymell sut y dylid datblygu’r cynigion ac ymgynghori yn eu cylch (e.e. grŵp tasg a gorffen, cyfeirio at bwyllgor archwilio neu gyfeirio at y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, canfod rhagor o fanylion ar gyfer y gweithdy nesaf, ac ati). Bydd y gweithdaic cyllidebol yn rhoi cyfle i gael mewnbwn ehangach gan aelodau i'r argymhellion hyn, ac o’r herwydd, yn Atodiad 1, dangosir bod y dewisiadau yn dod i'r amlwg o'r gweithdai ar gyfer aelodau. Ar gyfer rhai cynigion, y gobaith yw y bydd yr aelodau'n cefnogi mynd â nhw ger bron y Cyngor Sir i'w cymeradwyo fis Medi .

Cynigir bod pob un o’r gweithdai cyllidebol yn rhai diwrnod cyfan. Dyma amlinelliad drafft o'r meysydd gwasanaeth y canolbwyntir arnynt ym mhob un o'r gweithdai fis Gorffennaf:

| **Gweithdy 1 (yn gynnar fis Gorffennaf - I'w gadarnhau)** | **Gweithdy 2 (14 Gorffennaf)** |
|---|---|
| Gwasanaethau Oedolion a Busnes | Priffyrdd a'r Amgylchedd |
| Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | Tai a Datblygu Cymunedol |
| Addysg ac Ysgolion | Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden | Cyllid ac Asedau |
| | Gwella Busnes a Moderneiddio |
| | Adnoddau Dynol Strategol |
| | Gwasanaethau Cyfreithiol a |

| | |
|---|---|
| | Democrataidd |

Bydd hyn yn cwblhau Cam 1 proses y gyllideb ac yn arwain at Gam 2. Bydd yr un broses o gymeradwyo ac o ymgynghori yn dilyn gyda'r gobaith o fynd â rhagor o gynigion i'r Cyngor fis Rhagfyr. Yn ystod Cam 2 y broses, efallai y bydd angen ymgynghori'n gyhoeddus ynglŷn â rhai cynigion.

Mewn egwyddor, Cam 3 fydd y cam cyllidebol anoddaf i'w gyflawni gan mai hwnnw sy'n debygol o gynnwys y cynigion mwyaf cynhennus. Bydd canlyniad y ddau gam cyntaf o gymorth i gynllunio dull gweithredu'r trydydd cam ac efallai y bydd yn rhaid ailystyried y dull gweithredu hwnnw yn yr hydref. Mae'n debygol y cynhelir y pumed gweithdy i aelodau (sydd i'w gynnal ar hyn o bryd ar 22 Rhagfyr) yn gynharach. Mae crynodeb o'r dyddiadau allweddol i'w weld yn y tabl isod:

| Digwyddiadau Allweddol | Dyddiadau |
|---|---|
| **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** | **15 Ebrill 2014** |
| **Sesiwn Friffio'r Cyngor** | **28 Ebrill** |
| **Cylch Cyntaf y Cyfarfodydd Cyllidebol gyda Gwasanaethau** | **7 Mai – 30 Mehefin** |
| **Diweddariad i Sesiwn Friffio'r Cabinet** | **12 Mai** |
| **Diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** | **21 Mai** |
| **Diweddariad i Sesiwn Friffio Cabinet** | **2 Mehefin** |
| **Diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** | **2 Gorffennaf** |
| **Uwch Dîm Arweinyddiaeth** | **3 Gorffennaf** |
| **Y Gweithdy Cyllidebol Cyntaf i Aelodau** | **Ddechrau Gorffennaf *** |
| **Diweddariad i Sesiwn Friffio'r Cabinet** | **7 Gorffennaf** |
| **Yr Ail Weithdy Cyllidebol i Aelodau** | **14 Gorffennaf** |
| **Diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** | **3 Medi** |
| **Y Cyngor Sir** | **9 Medi** |
| **Ail Gylch y Cyfarfodydd Cyllidebol gyda Gwasanaethau** | **Medi/ddechrau Hydref** |
| **Diweddariad i Sesiwn Friffio'r Cabinet** | **22 Medi** |
| **Diweddariad i Sesiwn Friffio'r Cabinet** | **6 Hydref** |
| **Y Trydydd Gweithdy Cyllidebol i Aelodau** | **13 Hydref *** |
| **Y Pedwerydd Gweithdy Cyllidebol i Aelodau** | **20 Hydref** |
| **Diweddariad i Sesiwn Friffio'r Cabinet** | **3 Tachwedd** |
| **Diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** | **5 Tachwedd** |
| **Diweddariad i Sesiwn Friffio'r Cabinet** | **8 Rhagfyr** |
| **Y Cyngor Sir** | **9 Rhagfyr** |
| **Diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** | **17 Rhagfyr** |
| **Y Pumed Gweithdy Cyllidebol i Aelodau** | **22 Rhagfyr *** |
| **Y Cyngor Sir** | **3 Chwefror 2015** |

(* mae'r dyddiadau i'w cadarnhau)

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Rheoli cyllideb refeniw'r cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni sy'n cynnal gweithgarwch pob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae angen i'r cyngor i sicrhau arbedion o tua £12m dros y ddwy flynedd ariannol nesaf.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r asesiad a gynhaliwyd o effaith y penderfyniad ar gydraddoldeb?**

Bydd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gwblhau ar gyfer pob cynnig perthnasol wrth i'r broses ddatblygu.

**8. Pa ymgynghori a wnaed gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Mae'r papur hwn yn amlinellu'r broses ac yn tynnu sylw at pryd y bwriedir ymgynghori a chymeradwyo.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Bydd hon yn broses heriol iawn a bydd penderfyniadau anodd i'w gwneud ar hyd y ffordd. Mae ymrwymiad a chefnogaeth yr aelodau etholedig i'r broses o wneud penderfyniadau ac wrth graffu ar y broses yn hanfodol.

**10. Beth yw'r risgiau ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi ei wynebu a bydd methu cyflawni strategaeth effeithiol ar gyfer y gyllideb yn rhoi rhagor o bwysau ar wasanaethau mewn blynyddoedd ariannol i'r dyfodol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.